**LC323**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys rheolau ar ddulliau cadw anifeiliaid sy'n cael eu ffermio er mwyn sicrhau eu lles. Maent yn gweithredu darpariaethau a gynhwysir mewn amryw o eitemau o ddeddfwriaeth Gymunedol, y manylir arnynt yn y nodyn esboniadol. Mae hyn, yn ei dro, yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth a geir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar gyfer Amddiffyn Anifeiliaid sy'n cael eu cadw at ddibenion Ffermio.

Mae Rheoliadau ar yr un ffurf bron eisoes wedi'u gwneud yn Lloegr a'r Alban - OS 2000/1870 (yn dod i rym ar 14 Awst 2000) ac OSA/442 (yn dod i rym ar 15 Rhagfyr 2000). Nid yw'r Cyd-Bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi codi dim pwyntiau mewn perthynas â Rheoliadau Lloegr (sesiwn 1999-2000, 23ain adroddiad).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

16 Hydref 2001